

# Adolygiad Blynyddol Cyngor ar Bopeth Torfaen



## Fe wnaeth Cyngor ar Bopeth Torfaen fy helpu i ganfod ffordd ymlaen.

### Stori Marie

Daeth Marie atom gyda'i mam a'i gweithiwr cymorth oherwydd roedd hi'n cael ei phoenydio am £237 ffi cosb terfynu'n gynnar o aelodaeth i'r gampfa. Fe wnaethon ni ddysgu bod ei rheswm dros ganslo'r aelodaeth yn gysylltiedig â'i chyflwr iechyd meddwl a hefyd bod yr asiantaeth gasglu yn ei phoenydio am y ddyled, a oedd yn achosi rhagor o ofid.

Fel rhan o'n hymchwiliad i'w hamgylchiadau, fe wnaethom drafod defnyddio'r Ffurflen Tystiolaeth Dyled ac Iechyd Meddwl ac aeth Marie â'r ffurflen i'w meddyg er mwyn iddo ei llenwi.

Ychydig ddyddiau'n ddiweddarach, cawsom e-bost gan Marie i ddweud

"Diolch yn fawr iawn i chi am eich cymorth. Fe wnaeth y Ffurflen Tystiolaeth Dyled ac Iechyd Meddwl weithio, ac nid yw'r asiantaeth gasglu'n fy mhoenydio i bellach".

Gyda'n cyngor, roedd Marie yn gallu defnyddio system a oedd eisoes ar gael er mwyn datrys y broblem ei hun. Esiampl wych o sut y gall cyngor da helpu i rymuso pobl.

cyngor ar  
bopeth

citizens  
advice

## O'r Cadeirydd

Mae Cyngor ar Bopeth Torfaen mor hygyrch ag erioed. Gallwch barhau i 'gerdded i mewn' a gweld ymgynghorydd yn ein cangen ond gallwch bellach ddefnyddio ein gwasanaeth yn eich cymuned yn un o'ch sesiynau galw heibio ledled y fwrdeistref, drwy alwad ffôn neu ar sgwrs gwe. Nu fu cyrchu cyngor annibynnol, o ansawdd erioed mor hawdd. Mae preswylwyr Torfaen yn dibynnu ar ein gwasanaeth. Rydym wedi helpu 11,000 o bobl â 21,000 o broblemau yn y flwyddyn ddiwethaf ac yn parhau i wella'r polisïau ac arferion sy'n effeithio bywydau pobl trwy ein gwaith. Gyda'n help bydd 7 allan o 10 o bobl sy'n derbyn ein cyngor wedi datrys eu problemau. Mae ein gwaith yn cynnig gwerth rhagorol i gymdeithas; gyda

phob punt a fuddsoddir ynom ni'n cynyddu ar ffurf cynilion neu fudd-daliadau. Yn Cyngor ar Bopeth Torfaen, rydym yn meddwl am yr unigolyn, nid yn unig y ddyled, y budd-dal neu'r problemau defnyddiwr y maent yn eu hwynebu. Felly, dros y flwyddyn sydd i ddod, byddwn yn mynd cam ymhellach i gefnogi ein cleientiaid drwy weithio'n agosach ag asiantaethau cymorth eraill. Mae Cyngor ar Bopeth Torfaen yma i ddatrys problemau, newid bywydau a chreu cymdeithas deg. Os bydd angen ein cymorth arnoch, rydym ar gael.


John Killick, Cadeirydd  
Cyngor ar Bopeth Torfaen

## Rydym yn gweithio gyda rhai o'r bobl sydd â'r angen mwyaf

Golyga hyn arian diffygiol i allu bwyta'n iach, cynnal llety digonol a chymryd rhan yn y gymdeithas.

Yn aml, mae mwy o risg yn gysylltiedig â chaniatáu i broblemau'r cleientiaid hyn waethygu. Mae galluogi i'r unigolion hyn wneud gwahaniaethau materol i'w bywydau yn helpu i leddfu anghydraddoldebau cymdeithasol a all arwain at anghydraddoldebau iechyd.

**Profodd bron 3 o bob 4** o gleientiaid Cyngor ar Bopeth effeithiau negyddol o ganlyniad i hyn o'u problemau:



Deilliannau ac ymchwil effaith Cyngor ar Bopeth (2014)

## Ystadegau Allweddol

Cleientiaid	10,927
Cysylltiadau sydyn i gleientiaid	174
Materion	20,628
Gweithgareddau	31,627
Achosion	11,627

## Stori David

Daeth David atom ar ôl derbyn gordaliad Credydau Treth gwerth dros £7,000.

Rhoddodd wybod i CThEM pan symudodd ei bartner i fyw ato ychydig fisoedd ynghynt, ond er syndod iddo, fe wnaethon nhw benderfynu fod ei bartner wedi symud ato flwyddyn ynghynt – er gwaetha'r ffaith nad oedd David wedi cwrdd â hi adeg hynny.


Roedd David wedi ceisio herio'r peth ei hun ond fe brofodd anawsterau. Ar ôl inni ymyrryd, o'r diwedd fe wnaeth CThEM dderbyn bod David yn sengl yn ystod y cyfnod dan sylw a bod yr archeb am ad-dalu'r credyd treth wedi'i ddiddymu.

## Rydyn ni o fantais

**i bawb:** Rhennir ein gwerth ar draws y gymdeithas

**Ein gwerth i'r gymdeithas yn 2017/18.**

**Am bob £1 a fuddsoddir yn Cyngor ar Bopeth Torfaen, rydym yn cynhyrchu o leiaf:**



## Gwerth gwirfoddoli

### Mae gwirfoddoli gyda'r gwasanaeth Cyngor ar Bopeth yn cynnig manteision sylweddol i wirfoddolwyr.

Gellir pennu gwerth am rai o'r rhain. Rydym yn helpu gwirfoddolwyr i wneud y canlynol:

- Cael y profiad a'r hyder i fentro i'r byd gwaith
- Gwella rhagolygon cyflogaeth a chyflogau trwy ddatblygu sgiliau
- Rheoli cyflyrau iechyd meddwl yn well, megis iselder
- Gwella eu hunan-barch, lleihau arwahanrwydd a chael mwy o allu i symud ymlaen
- Profi ymdeimlad o berthyn trwy weithio gyda phobl leol, gan gynyddu ymddiriedaeth gymunedol.
- Mae dros 70 o wirfoddolwyr wedi helpu eu cymuned trwy Gyngor ar Bopeth Torfaen yn 2017-18

### Buddion economaidd a chymdeithasol ehangach (gwerth cyhoeddus)

Yr Adran Gwaith a Phensiynau (trwy gadw pobl mewn swydd) £359,850

Y System Cyfiawnder Troseddol (trwy atal achosion o droi allan a digartrefedd) £60,592

Darparwyr Tai (trwy atal achosion o droi allan) £1,410,248

Gwerth cyhoeddus o ran gwella lles cleientiaid (lles emosynol a gweithredu cadarnhaol) £4,480,757

Gwerth cyhoeddus o ran gwirfoddoli (rhan o gyfanswm gwerth cyhoeddus) £182,750

## Stori Bethan

Mae Bethan yn dioddef o broblemau iechyd meddwl, ac o wirfodd, rhoddodd rybudd ymadael o'i heiddo cymdeithasol tai am iddi dderbyn rhybudd ceisio meddiant. Doedd dim dihangfa rhag ei dyledion, ond roedd hi am ddychwelyd i'r eiddo os oedd modd iddi wneud hynny.

Fe wnaethon ni gysylltu â'i landlord ac egluro sefyllfa Bethan. Fe wnaethon nhw gytuno i dynnu rhybudd Bethan yn ôl a chaniatáu iddi ddychwelyd i'r eiddo'r diwrnod hwnnw, cyn belled â'i bod yn cwrdd ag un o'u hymgyngorwyr i gytuno ar sut y byddai'n ad-dalu'r ôl-ddyledion.

## Y 5 categori cyngor gorau

Y 5 Prif Fater	Cleientiaid	Materion
Dyled	4,303	8,281
Budd-daliadau a chredydau treth	2,583	6,627
Perthnasau a theulu	529	720
Budd-daliadau Credyd Cynhwysol	526	1,198
Tai	457	574

## Yr hyn a wnawn gyda'n harian

Incwm	£761,649
Gwariant: Gweithgareddau Elusennol	£784,792
Llywodraethu	£4,679
Cyfanswm y Gwariant	£789,471
Incwm a Gadwyd	-£27,822

## Mantolen ar 31 Mawrth 2018

Asedau Sefydlog	£49,266
Asedau Cyfredol	£238,799
Asedau Cyfredol Net	£205,478
Asedau Net	£254,744
Cronfeydd Cyfyngedig	£15,481
Cronfeydd Anghyfyngedig	£239,263
Cronfeydd Wrth Gefn Am Ddim	£174,997

Rhoddodd ein harchwilwyr Watts Gregory LLP farn anghymwys i'n cyfrifon 2017-18

## Diolch i'n harianwyr

Llywodraeth Cymru; Y Gwasanaeth Cyngor Ariannol; Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen; Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol; Cyngor ar Bopeth; Y Gymuned Cyngorau Croesyceiliog, Cwmbrân, Pont-y-pŵl, Pont-hir, Henllys.

Gwnaed apwyntiad budd-dal i Bethan yn syth ac apwyntiad dyled y diwrnod canlynol lle'r oeddem yn gallu egluro sefyllfa budd-daliadau'r cleient a thrafod ei gwahanol ddyledion, gan gynnwys ôl-ddyledion rhent.

Fe wnaethon ni ddarganfod fod gan Bethan ddyledion â Dŵr Cymru ac roedd ein hymgyngorydd Dyled yn gallu negodi cynllun ad-dalu ar ei chyfer hi. Mae ein cyngorwyr Budd-daliadau yn helpu Bethan i apelio â'i phenderfyniad Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA). Fel cleient sy'n dioddef â chyflyrau iechyd meddwl difrifol, mae hi bellach ar y llwybr cywir i glirio'i holl ddyledion a datrys ei phroblemau budd-daliadau gyda chynghor Canolfan Cyngor ar Bopeth

# Cyngor cyfrinachol am ddim. Pwy bynnag ydych.

Rydym yn helpu pobl i oresgyn eu problemau ac yn ymgyrchu ar faterion mawr pan fydd angen clywed eu lleisiau.

Rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth, yn hyrwyddo cydraddoldeb, ac yn herio gwahaniaethu ac aflonyddu. Rydyn ni yma i bawb.

## Sut y gallwn ni helpu

Mae ein gwasanaeth yn rhad ac am ddim, yn gyfrinachol ac yn agored i bawb yn y gymuned. Mae'r staff wedi'u hyfforddi i roi cyngor ar bron unrhyw beth, gan gynnwys:

- budd-daliadau lles
- problemau ariannol a dyledion
- cyflogaeth
- hawliau defnyddwyr
- tai
- anghydfodau cymdogion
- addysg a gofal iechyd
- gwneud cwynion gan gynnwys iawndal
- cymorth treth i bobl hŷn
- cyngor ariannol annibynnol
- ymholiadau mewnffudo a phreswyllo
- hawliau dynol
- materion teuluol a phersonol
- newid ynni, arbed tanwydd a grantiau
- pensiynau

Rydym yn eich arfogi â'r holl ffeithiau a chanlyniadau posibl i'r gwahanol opsiynau. Felly, gallwch chi wneud y penderfyniad sydd fwyaf addas i chi. Os bydd angen, gallwn hefyd gynnig cymorth ymarferol, megis cymorth i lenwi ffurflenni, ysgrifennu llythyrau neu drafod gyda thrydydd parti, gwneud apêl ar eich rhan a hyd yn oed eich cefnogi chi mewn tribiwnlys.

## Sesiynau cerdded i mewn wyneb yn wyneb:

**Cwmbrân** – Gorsaf Fysiau

Bob dydd yr wythnos 9.30 – 3yp  
(1yp Dydd Iau)

**Pont-y-pŵl** – Stryd George

Bob dydd yr wythnos 10yb – 12.30,  
1.30 – 3.30yp

## Mae gennym hefyd sesiynau allgymorth yn:

**Trefddyn, Blaenafon, y rhan fwyaf o fanciau bwyd a rhai canolfannau iechyd.**

Edrychwch ar [www.citizensadvicetorfaen.org.uk](http://www.citizensadvicetorfaen.org.uk) am yr oriau agor diweddaraf.

Wedi'i awdurdodi a'i reoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol – FRN 617775

Wedi'i achredu gan y Safon Ansawdd Cyngor 'gyda gwaith achos' mewn Dyledion, Budd-daliadau a Thai

1113724 Rhif Cwmni

Cofrestredig: 5083197



## Ein manylion cyswllt

Llinell Gymorth: 03444 77 20 20

Llinell Gymorth Defnyddwyr Cyngor ar Bopeth: 03454 04 05 06

Shunan Gymorth: [www.citizensadvice.org.uk](http://www.citizensadvice.org.uk)

Llinell Weinyddol (dim cyngor): 01633 876121

E-bost: [reception@citizensadvicetorfaen.org.uk](mailto:reception@citizensadvicetorfaen.org.uk)

Gwefan: [www.citizensadvicetorfaen.org.uk](http://www.citizensadvicetorfaen.org.uk)

